## DYDDIAU YSGOL 1

**Oeddet ti'n mwynhau yn yr ysgol?**
**Welest ti wahaniaeth rhwng yr ysgol gynradd a'r ysgol uwchradd?**
**Pa un oedd yn well gen ti?**
**Oeddet ti'n blentyn da yn yr ysgol?**
**Oedd gen ti hoff athro/athrawes? Pam?**
**Beth am athrawon drwg?**
**Oedd gen ti hoff bwnc?**
**Oedd gen ti gas bwnc? Pam? Achos y pwnc neu'r athro/athrawes?**

## DYDDIAU YSGOL 2

**Beth oedd eich gwisg ysgol yn yr ysgol gynradd?**
**Beth oedd eich gwisg ysgol yn yr ysgol uwchradd?**
**Oeddech chi'n hoffi'r wisg?**
**Oeddech chi'n newid y wisg o gwbl i wrthryfela (ee gwisgo sgert fer neu hir, tei wedi clymu'n gwta ayb)?**
**Beth ydy'ch barn chi am wisg ysgol? Ydy hi'n syniad da i bawb wisgo yr un fath?**

GYRRU a THEITHIO

Wyt ti'n gyrru car?

- Pa fath o gar sydd gen ti?
- Beth oedd dy gar cyntaf?
- Wnest ti basio'r prawf gyrru'r tro cyntaf?
- Wyt ti'n meddwl bod pobl 17 oed yn rhy ifanc i yrru?
- Wyt ti'n llenwi'r tanc pan rwyt ti'n prynu petrol neu wyt ti'n rhoi gwerth £20 i mewn?
- Wyt ti'n defnyddio cludiant cyhoeddus o gwbl?
- Os wyt ti'n mynd ar daith hir wyt ti'n fwy tebygol o yrru neu fynd ar y trên?

BETH SY'N DY WYLLTIO DI . . .

- efo pobl?
- efo gwleidyddion?
- efo cymdeithas heddiw?
- efo plant?
- efo dysgu Cymraeg?
- efo Cymru?
- efo dy gymar?
- efo technoleg/ffonau symudol?
- efo ti dy hun?

RHAGLENNI TELEDU

Pa fath o raglenni dach chi'n eu hoffi orau?

newyddion
rhaglenni dogfen
rhaglenni ffeithiol
rhaglenni natur
operâu sebon
rhaglenni cwis
rhaglenni ffug-wyddonol
rhaglenni ditectif

- Dach chi'n tueddu i wylio rhaglenni'n fyw neu raglenni wedi'u recordio?
- Efo pa gwmni dach chi'n cael eich rhaglenni teledu?
- 'Sgynnoch chi deledu ar y we i gael Netflix, Amazon neu rywbeth tebyg?
- Beth ydy'ch hoff raglen deledu?
- 'Sgynnoch chi hoff actor? Pwy?
- Dach chi'n gwylio rhaglenni Cymraeg?
- Dach chi'n gwylio rhaglenni Cymraeg efo is-deitlau?
- Beth ydy'ch hoff raglen Gymraeg?

CERDDORIAETH

**Pa fath o gerddoriaeth wyt ti'n (ei) hoffi?**

**canu pop**
**jas**
**cerddoriaeth gerddorfaol**
**canu gwerin**
**metal trwm**
**roc**
**canu'r felan (blŵs)**
**canu gwlad**
**opera**
**reggae**
**canu canol y ffordd**
**canu rhyngwladol**

- **Ble rwyt ti'n tueddi i fod pan rwyt ti'n gwrando ar gerddoriaeth?**
- **Wyt ti'n canu offeryn?**
- **Oeddet ti'n canu offeryn pan oeddet ti'n iau?**
- **Wyt ti'n smalio canu gitâr neu offeryn arall pan rwyt ti'n gwrando ar gerddoriaeth?**
- **Wyt ti'n aelod o gôr neu wedi bod yn y gorffennol?**
- **Wyt ti'n gwrando ar gerddoriaeth Gymraeg?**
- **'Sgen ti hoff ganwr/grŵp Cymraeg?**
- **'Sgen ti hoff gân Gymraeg?**

**LLYFRAU A DARLLEN**

- **Beth ydy'ch hoff lyfr chi?**
- **Dach chi'n hoffi rhyw fath arbennig o lyfrau, megis llyfrau ffeithiol, llyfrau ditectif, llyfrau rhamant?**
- **Beth sy'n gwneud llyfr da i chi?**
  - **cymeriadau**
  - **arddull**
  - **deialog**
  - **stori**
  - **moeswers**
  - **y siwrnai**
  - **eich bod yn dysgu rhywbeth**

**Ydych chi'n edrych ar y tudalen olaf cyn dechrau darllen llyfr?**
**Ydy broliant ar glawr y llyfr yn bwysig?**
**Dach chi wedi darllen llyfr Cymraeg? Pa lyfr?**
**Beth oedd eich hoff lyfr chi'n blentyn?**

GWLEIDYDDIAETH

**Wyt ti'n perthyn i blaid wleidyddol?**
**Wyt ti'n pleidleisio bob tro?**
**Wyt ti'n credu bod gwleidyddion yn dweud y gwir?**
**Sut wyt ti'n teimlo am y costau mae'r gwleidyddion yn eu cael?**
**Ddylai aelodau teulu weithio i wleidyddion?**
**Beth wyt ti'n feddwl am y Prif Weinidog?**
**Beth wyt ti'n feddwl am Brif Weinidog Cymru?**
**Wyt ti'n meddwl y dylai Cymru gael annibynniaeth?**
**Beth am Yr Alban?**
**Ddylai plant 16 oed gael pleidleisio?**

STEREOTEIPAU

**O ble (r)wyt ti'n dod? Oes stereoteip am bobl o'r ardal honno? Beth ydy rhai o'r stereoteipau o Gymru? Ydyn nhw'n wir? Wyt ti erioed wedi cyfarfod pobl sy'n profi'r stereoteip?**
**Wyt ti'n credu bod rhai stereoteipiau'n wir? Beth am y canlynol:**

- **Mae pobl Rwsia yn yfed llawer o fodca**
- **Mae pobl Gwlad Groeg yn mwynhau bywyd**
- **Mae Americanwyr yn swnllyd**
- **Mae pobl Sgandanafia yn swil**
- **Mae pobl Yr Eidal yn ffasiynol**
- **Mae pobl Ffrainc yn meddwl eu bod yn well na phawb arall**
- **Dydi pobl Siapan ddim yn mwynhau bod ar eu pennau eu hunain**

**GWYLIAU**

**Dach chi'n mynd ar wyliau bob blwyddyn?**
**Beth sy'n well gennych chi – gwyliau ym Mhrydain neu wyliau tramor?**
**Pa fath o wyliau dach chi'n (eu) mwynhau? Gwyliau ar lan y môr? Gwyliau diwylliannol? Gwyliau cerdded? Cyfle i ddysgu rhywbeth newydd?**
**Beth fasa'ch gwyliau delfrydol?**
**Efo pwy fasech chi'n mynd?**
**Dach chi erioed wedi mynd ar wyliau ar eich pen eich hunan?**
**Beth oedd eich gwyliau gorau erioed?**
**Beth oedd eich gwyliau gwaetha' erioed?**
**Dach chi'n mwynhau hedfan?**
**Fasech chi'n aros mewn gwesty yn ymyl y maes awyr y noson cyn hedfan, neu fasa'n well gennych chi adael cartref yn gynnar yn y bore?**

DIDDORDEBAU AC AMSER HAMDDEN

- 'Sgynnoch chi hobi – heblaw am ddysgu Cymraeg?
- Dach chi'n aelod o unrhyw grŵp neu gôr?
- Dach chi'n casglu unrhyw beth?
- Oeddech chi'n casglu rhywbeth pan oeddech chi'n ifanc?
- Oes gwell gennych chi ddilyn eich diddordeb ar eich pen eich hun neu efo rhywun?
- Beth sydd orau gennych: gwneud rhywbeth corfforol, dysgu rhywbeth newydd neu wneud rhywbeth gyda'ch dwylo?
- Ydy'ch diddordebau wedi newid wrth i chi dyfu i fyny?
- 'Sgynnoch chi sgil unigryw?
- Ydi gwylio teledu yn cyfrif fel diddordeb hamdden?

DILLAD

- Ydi dillad yn bwysig i ti?
- Beth faset ti'n ei wisgo ar gyfer mynd allan am bryd o fwyd?
- Beth faset ti'n ei wisgo ar gyfer mynd i gyngerdd?
- 'Sgen ti siwt orau?
- Wyt ti'n dilyn ffasiwn, neu wyt ti'n cadw dillad nes eu bod yn dyllau?
- Oes lliw faset ti ddim yn ei wisgo, neu hoff liw gen ti?
- 'Sgen ti hoff ddilledyn?
- Oes angen i berson wisgo yn addas ar gyfer swyddi arbennig?

Wyt ti'n meddwl bod rhai gwisgoedd swyddogol yn ddiangen, neu'n wirion, megis gwisgoedd barnwyr a'r milwyr o gwmpas Palas Buckingham?

DYSGU CYMRAEG

- Sut mae'r broses o ddysgu Cymraeg wedi bod i chi?
- Ydi Cymry Cymraeg yn fodlon siarad Cymraeg efo chi?
- Beth ydi'r peth mwyaf anodd am ddysgu iaith?
- Dach chi'n berson sy'n dysgu orau trwy wrando, darllen, ysgrifennu neu siarad?
- Dach chi'n teimlo'n ddigon hyderus i ddechrau sgwrs yn Gymraeg gyda phobl ddiarth?
- Dach chi wedi siarad Cymraeg ar y ffôn? Fasech chi'n fodlon rhoi cynnig arni?
- Dach chi wedi llenwi unrhyw ffurflen yn Gymraeg?
- Dach chi wedi tynnu pres allan o dwll yn y wal gan ddefnyddio'r dewis Cymraeg? Beth am mewn stondin hunan-wasanaeth mewn archfarchnad?
- Beth ydy'r peth gorau am fod wedi dysgu Cymraeg?
- Pa gyngor fasech chi'n ei roi i berson sy'n ystyried dechrau dysgu Cymraeg?
- Dach chi wedi bod ar gwrs wythnos neu benwythnos? Oedd o'n helpu? Oedd o'n rhy flinedig?

TASECH CHI'N MEDRU MYND NÔL MEWN AMSER A SIARAD EFO CHI EICH HUN YN IFANC BETH FASECH CHI'N EI DDWEUD?

- Fasech chi'n dweud wrthoch chi eich hun i newid rhywbeth?
- Fasech chi'n dweud y gwir am beth sy'n mynd i ddod?
- Pa gyngor fasech chi'n ei roi?

BWYTA ALLAN

- Beth sy'n well gynnoch chi – bwyta allan neu goginio pryd yn y tŷ
- Pa mor aml fyddwch chi'n cael pryd ar glud (tecawê)?
- Pa mor aml fyddwch chi'n mynd allan am bryd o fwyd?
- Pa fath o fwyd sydd orau gynnoch wrth fynd allan?
    - Prydeinig?
    - Eidalaidd?
    - Tseinaidd?
    - Indiaidd?
    - Thai?
    - Sglodion?
    - bwyd cadwyn (fel Nandos neu Wetherspoons)?
- Ydych chi'n cael gwin gyda phryd o fwyd fel arfer?
- gwin gwyn neu win coch?
- Beth oedd y pryd gorau i chi ei fwyta allan erioed?
- Beth oedd y pryd gwaethaf i chi ei fwyta allan erioed?

IECHYD A FFITRWYDD

- Beth wyt ti'n ei wneud i gadw'n heini?
- Wyt ti, neu wyt ti erioed, wedi mynd i gampfa ffitrwydd (gym)?
- Wyt ti erioed wedi bod ar ddeiet? Dwed rywbeth amdano.
- Faset ti'n hoffi colli pwysau?
- Wyt ti'n trio bwyta'n iach? Sut?
- Wyt ti'n bwyta'r pum llysieuyn/ffrwyth angenrheidiol bob dydd?
- Wyt ti'n smygu, neu wedi rhoi gorau i smygu?

MEDDYGON A DEINTYDDION

- Dach chi'n ofnus o fynd at y meddyg?
- Dach chi'n berson sy'n barod i gymryd tabledi?
- Dach chi'n berson sy'n mynd at y doctor yn aml, neu dach chi'n berson sy'n fwy tebygol o ddioddef gartref?
- Dach chi'n ofnus o ysbytai?
- Dach chi erioed wedi torri asgwrn?
- Pa mor aml dach chi'n mynd at y deintydd?
- Sawl gwaith y dydd dach chi'n brwsio'ch dannedd?
- Dach chi erioed wedi cael profiad drwg efo'r deintydd?

DY HOFF LE YN Y BYD

- Ble mae dy hoff le yn y byd?
- Pa mor aml rwyt ti'n ymweld â'r lle?
- Pam rwyt ti'n hoffi'r lle?
- Fedri di ddisgrifio'r lle i mi?
- Oes 'na adeg o'r flwyddyn pan mae'r lle ar ei orau? Pam?
- Pwy fasa'n gwmni delfrydol i ti yn y lle hwn?
- Beth wyt ti'n mwynhau ei wneud yn y lle hwn?
- Oes rhywle arall yn y byd rwyt ti'n breuddwydio am ymweld â fo?
- 'Sgent ti gas le yn y byd? Pam? Ymhelaetha!

## DATHLU

- Dach chi'n mwynhau dathlu'ch pen-blwydd?
- Beth dach chi'n ei wneud i ddathlu?
- Os oes gennych chi blant, dach chi'n gwneud mwy ar gyfer eu pen-blwyddi nhw, neu pan oedden nhw'n fach?
- Dach chi'n berson sy'n mwynhau trefnu dathliadau mawr?
- Dach chi'n mwynhau partis?
- 'Sgynnoch chi bartner sy'n mwynhau dathliadau mwy neu lai na chi?
- Ydi parti cartref yn well na mynd allan i ddathlu?
- Dach chi'n disgwyl anrhegion mawr ar eich pen-blwydd?
- Beth oedd y dathliad diwetha' i chi ei gael?

## CARTREF

- Beth sy'n gwneud cartref i ti?
- Wyt ti'n glanhau'r tŷ yn rheolaidd?
- Pam (r)wyt ti'n prynu dodrefn newydd?
- Wyt ti'n cadw pethau achos rhesymau sentimental?
- Wyt ti'n dangos pethau diwerth ond efo sentiment yn y tŷ?
- Oes 'na bethau yn y tŷ y dylet ti eu taflu, ond methu?
- Tasa'r tŷ ar dân beth fasa'r peth cyntaf i ti ei gario allan?
- Oeddet ti'n cadw dy ystafell yn daclus pan oeddet ti'n ifanc?
- Pa un ydi dy hoff ystafell yn y tŷ? Pam?

YR OES DDIGIDOL

- 'Sgen ti gyfrifiadur?
- Beth sy gen ti?  Cyfrifiadur mawr neu liniadur?
- Pa mor aml wyt ti'n mynd ar-lein?
- 'Sgen ti dudalen Facebook neu Twitter?
- Wyt ti'n prynu papur newydd, gwylio'r newyddion neu'n darllen y newyddion ar-lein.
- Wyt ti'n siopa ar-lein?  Beth wyt ti'n ei brynu ar-lein?
- Beth ydi dy farn di ynglŷn â defnyddio cyfrifiaduron yn yr ysgol?
- 'Sgen ti ffôn clyfar?  Wyt ti'n defnyddio'r aps i gyd?  Beth wyt ti'n defnyddio ar y ffôn?

SWYDDI

- Beth oedd eich swydd gynta' chi?
- Beth oedd eich swydd orau chi? Pam?
- Beth oedd eich swydd waetha' chi?  Pam?
- Faint o oriau dach chi'n meddwl sy'n ddelfrydol ar gyfer gweithio?
- Dach chi'n meddwl bod isafswm cyflog yn syniad da?
- Ydi cyflogwyr yn poeni am les y staff, neu ydyn nhw eisiau cael y mwya' o waith allan ohonyn nhw?
- Dach chi erioed wedi gweithio dramor?  Sut oedd y profiad?
- Beth sy'n gwneud pennaeth da?
- Ydi penaethiaid yn cael gormod o arian?
- Oes 'na unrhyw swydd fasech chi byth yn ystyried ei gwneud?